

Darganfod Pwrpas – “Ewch i’r holl fyd”

Mae’r un disgybl ar ddeg yn mynd i Galilea, i’r mynydd lle’r oedd Iesu wedi dweud wrthyn nhw fynd, a phan maent yn gweld Iesu maent yn ei addoli. Roeddent wedi ei addoli ef o’r blaen ar ôl iddo gerdded ar y dŵr (Mathew 14:33), ond erbyn hyn maent yn ei addoli fel yr un a atgyfododd. Gwnant hynny ar y mynydd, ac yn y TN y mae mynyddoedd yn aml iawn yn lleoedd lle ceir datguddiad. Felly mae’n ymddangos bod Mathew yn dod a’i Efengyl i ben gyda neges ddiwinyddol bwysig, a hynny ar y mynydd.


Eto hyd yn oed ar ôl yr atgyfodiad, roedd rhai o ddisgyblion Iesu yn dal i amau. Nid yw Mathew yn dweud wrthym ba fath o amheuan oedd ganddynt. Agryma yn hytrach, bod ganddynt amheuan heblaw am amheuan ynghylch gwirionedd ei atgyfodiad. Efallai mai amau eu gallu hwy eu hunain i’w ddilyn yr oeddynt. Nid anghrediniaeth na gwrthwynebiad a ddisgrifir gan Mathew ond teimladau’r disgyblion ynglŷn â bychander eu ffydd. Nid oeddent wedi anghofio eu bod wedi cefnu ar Iesu. Mae llawer ohonom, rwy’n siŵr, yn deall ac yn rhannu eu teimladau.

Fodd bynnag, mae Iesu yn eu hatgoffa pwy ydyw. Mae’n dweud wrthynt: ‘Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear’. Roedd y diafol, fel y cofiwch, wedi cymryd Iesu i frig y mynydd uchel ac wedi cynnig iddo awdurdod dros holl deyrnasoedd y byd pe bai ddim ond yn ei addoli (Mathew 4: 8-11). Ond roedd bywyd cyfan Iesu yn dangos iddo wrthod y cynnig hwnnw.

A chanlyniad y gwrthodiad hwn oedd iddo orfod dioddef cael ei wrthod a’i groeshoelio, ond bu’n fuddugoliaethus.

Ganddo ef yn unig oedd yr awdurdod i anfon y disgyblion allan i’r byd i wneud disgyblion. Anfonodd hwy yn gyntaf i Israel (10: 5-6), ond bellach dyma fe yn eu hanfon allan i’r holl fyd.

Yn ddiweddar, wrth gerdded ar hyd Cathedral Road yng



Llun gan Rembrandt

Aeth yr un disgybl ar ddeg i Galilea i’r mynydd lle y trefnodd Iesu iddynt fod; a phan welsant ef addolasant ef, er bod rhai yn amau. Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: “Rhoddwyd i mi,” meddai, “bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o’r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw’r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.” Mathew 28:16-20

Adnabod Duw yng Nghrist

Yr hyn sy’n allweddol mewn Cristnogaeth yw realiti Duw yn Iesu Grist. Heb hynny, beth fyddai ar ôl yw rhyw grefydd Gristnogol, ryw rith aruthrol – gallai fod heb os yn dduwiolfrydig ac yn ddiwyll, ond er hynny yn rhiith gwag.

Karl Barth



Nghaerdydd, fe welais eto y geiriau a ysgrifennwyd yn Hebraeg ac yn Saesneg dros ddrws yr hen synagog yno: ‘Gelwir fy nhŷ yn dŷ gweddi i’r holl bobloedd’ (Eseia 56:7). Yr hyn a ddatgelir yn awr ar ddiwedd efengyl Mathew yw mai Duw pob cenedl yw Duw Israel. Mae’r disgyblion bellach wedi cael y comisiwn gan Iesu i wneud disgyblion o’r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân, a’u gwneud yn ddinasyddion o’i deyrnas. Mae cenhadaeth Israel bellach yn parhau yng nghenhadaeth yr Eglwys, nid yr adeiladau, ond y bobl sydd wedi cael eu galw i addoli’r Tad, a’r Mab a’r Ysbryd Glân. Er gwaethaf holl fethiannau’r Eglwys yn ei ffurfiau amrywiol, mae’r genhadaeth hon, y pwrpas hwn, yn parhau.

Golyga addoli Duw fyw y bywyd a ddisgrifir ar fynydd arall, yn y Bregeth ar y Mynydd. Mae Iesu yn gorchymyn ei ddisgyblion i ddysgu’r rhai y maent yn eu bedyddio i ufuddhau i’r hyn a orchmynnodd ef. Ni ellir gwahanu marwolaeth ac atgyfodiad Iesu oddi wrth y ffordd y bu’n ein dysgu ni i fyw. Mae’r addysg a’r athro yn un.

Mae Iesu felly yn gadael tair tasg i’w ddilynwyr: gwneud disgyblion, bedyddio a dysgu. Mae’r tasgau hyn yn ddigon syml i’w nodi, ond yn frawychus ac yn anodd eu cyflawni. Mae’r disgyblion, fodd bynnag, i gofio nad yw’r genhadaeth y mae Iesu yn eu hanfon iddi yn un y mae’n rhaid iddynt ei chyflawni ar eu pennau eu hunain. Bydd ef, yr Arglwydd Atgyfodedig, bob amser gyda’r rhai y galwyd arnynt i fod yn dystion i’w enw. Yr oedd Ef yno ar y dechrau, sy’n golygu ei fod yn gallu addo bod gyda ni yn wastad hyd ddiwedd amser.

Richard Brunt,
Llundain